# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 20 Medi 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | C.James, L.Williams, R.Davies, R.W.Wood, J.Jones, G.Rice, B.Woolford a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, N.Pearce, M.Roberts a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths a/ac S.Jones |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganwyd buddiannau gan –

Y Cyng. N Goldup-John - Eitem 3(a) Personol – gan ei fod yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru ac mae'n aelod o grŵp 'NPT Links'.

Y Cyng. S Pursey - Eitem 3(a) Personol – gan ei fod yn aelod o grŵp 'NPT Links'.

3. **YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet.

(a) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Cynllun Cyflawni Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot (2024-2029)

Croesawodd y Cadeirydd aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod a nodwyd bod y person wedi cyflwyno cais i ofyn cwestiwn yn rhy hwyr ar gyfer yr amserlenni gofynnol. Roedd y Gwasanaethau Democrataidd wedi cynnig cyfle iddynt ofyn y cwestiwn yn ystod cyfarfod y Cabinet yn lle, pan fydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried. Dywedodd y cadeirydd fod yr aelod o'r cyhoedd wedi derbyn yr opsiwn hwnnw.

Esboniodd y cadeirydd gefndir yr adroddiad i'r aelodau ac esboniodd ei fod i fod i gael ei gyflwyno i fwrdd y Cabinet a'r pwyllgor craffu yn ystod y flwyddyn ddinesig flaenorol ond mynegwyd pryderon yn ystod sesiwn friffio'r cadeirydd ar yr adroddiad. Canmolodd y cadeirydd y swyddogion am ystyried y pryderon ac roedd swyddogion wedi cynnull cyfarfod a oedd yn cynnwys aelodau'r Cabinet, cynghorwyr â diddordeb a phobl eraill, i drafod y mater hwn. Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad wedi cael ei wella'n sylweddol o'r drafft gwreiddiol o ganlyniad i hyn.

Roedd yr Aelodau'n anhapus nad oes amserlenni yn yr adroddiad ac roeddent yn teimlo, er mwyn mesur effeithiolrwydd y strategaeth, roedd angen amserlenni i weld a yw'r awdurdod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau hyn. Roedd yr aelodau hefyd am weld pa grantiau y mae'r awdurdod wedi gwneud ceisiadau amdanynt yn y gorffennol fel y gallant gymharu a mesur yn erbyn y rheini.

Dywedodd yr Aelodau nad oedd yn ymddangos bod unrhyw ganlyniadau mesuradwy a gofynnwyd i ragor o fanylion gael eu cynnwys.

Nododd yr Aelodau fod angen gwaith cynnal a chadw a bod angen torri dail ar y llwybrau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch a theimlwyd bod angen i'r gyllideb strydlun a'r gyllideb priffyrdd fod yn hyblyg a chydweithio gan ei bod yn swydd sy'n gweithio gyda'r ddwy adran.
Roedd yr aelodau hefyd yn pryderu bod ystod dyddiad yr adroddiad rhwng 2024 a 2029 ond roeddem bellach dros hanner ffordd drwy 2024 a theimlwyd bod hynny'n golygu bod y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon wedi cael ei cholli.

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd, y Cynghorydd Wyndham Griffiths, ymateb i'r cwestiynau a dywedodd fod yr adroddiad yn ymdrin â 2024-2029 ac y byddai

wedi cyrraedd yn gynharach yn y flwyddyn ond fel y nododd y cadeirydd yn gynharach bu cyfarfod arall gyda chynghorwyr â diddordeb i ehangu ar yr hyn yr oeddent am ei weld yn y cynllun a dyna'r rheswm dros ei ailgyflwyno i'r aelodau nawr.

Dywedodd Aelod y Cabinet fod y gwelliannau cyflawni yn amodol ar gyllid grant gan nad oes gan yr awdurdod gyllideb teithio llesol a heb sicrwydd cyllid, mae swyddogion yn anghyfforddus yn nodi amserlenni union gywir ar gyfer cyflawni. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod yr awdurdod wedi gwneud cais am gyfanswm o £13miliwn mewn grantiau a gwerth £152,000 mewn cymorth grant ac o hynny roeddent wedi derbyn £6,000,573. Dywedodd Aelod y Cabinet fod gan yr awdurdod tua hanner yr holl arian y gwnaed cais amdano.

Nododd Aelod y Cabinet nad oes cyllideb benodol ar gyfer cynnal a chadw ac, ar wahân i'r cyllid grant, mae'r awdurdod yn derbyn y costau cyfalaf yn unig, ond mae'n rhaid i unrhyw waith cynnal a chadw ddod allan o'r gyllideb Strydlun a chyllideb y Cyngor.

Dywedodd Aelod y Cabinet fod angen i'r awdurdod geisio addysgu Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch y ffaith bod angen yr arian gwella yn ogystal â chronfeydd grant ar yr awdurdodau. Dywedodd swyddogion eu bod wedi bod yn lobïo gweinidogion Llywodraeth Cymru am y mater cynnal a chadw ynghylch teithio llesol a'i fod wedi bod yn bwnc llosg ers i'r canllawiau teithio llesol gael eu cyhoeddi.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Aelodau'r Cabinet o bob rhan o Gymru wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth yn ddiweddar ac roedd hyn yn rhan o'r drafodaeth honno. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi mynd i ffwrdd i ystyried a allant ddarparu rhai cyfraniadau refeniw wrth symud ymlaen i gyfrannu at y gwaith cynnal a chadw. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud a nododd swyddogion fod Llywodraeth Cymru'n edrych ar eu sefyllfa gyllidebol gyffredinol gyda Datganiad yr hydref sydd ar ddod.

Mewn perthynas ag uchelgais i wneud cais am grantiau, dywedwyd wrth aelodau bod y ceisiadau'n cael eu blaenoriaethu yn unol ag arweiniad gan swyddogion Trafnidiaeth Cymru, mewn perthynas â'u blaenoriaethau o ran yr hyn sydd yn y sefyllfa orau i dderbyn grantiau. Fodd bynnag, esboniodd swyddogion mai dim ond tua 50% o brosiectau sy'n cael eu hariannu o gronfa Cymru gyfan. O ran

cynllunio, mae hyn yn golygu bod swyddogion yn gallu ymdrin â chynlluniau o fewn y flwyddyn yn unig.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi lobïo am ddyfarniadau grant tymor hwy dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd i roi sicrwydd fel y gallant gynllunio yn unol â hynny. Mae swyddogion yn cael eu cyfyngu gan y broses gymeradwyo a'r ffaith bod grantiau'n cael eu dyrannu'n flynyddol.

Dywedodd yr Aelodau bod rhai o'r ffyrdd a'r llwybrau sy'n arwain at lwybrau teithio llesol yn Sandfields yn wael, a gofynnwyd a oedd unrhyw waith wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y llwybrau'n cael eu cysylltu â'r llwybrau teithio llesol gan fod rhai o'r llwybrau hyn mewn cyflwr gwael.

Dywedodd swyddogion eu bod yn edrych ar brif gynllun Sandfields ac mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo. Mae swyddogion wedi cwblhau adroddiad dichonoldeb sy'n edrych ar yr holl lwybrau sydd wedi'u nodi yn y map rhwydwaith teithio llesol i ddod o hyd i atebion ar gyfer gwella'r rheini y flwyddyn ariannol hon. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod swyddogion yn bwrw ymlaen â gwaith i ddylunio tri llwybr, (Scarlett Avenue, Princess Margaret Way a Victoria Road) ac fe fydd y gweddill yn dilyn dros y blynyddoedd dilynol. Bydd swyddogion yn gwneud cais am gyllid i adeiladu'r llwybrau hynny.

Eglurodd swyddogion hefyd, o ran cynnal a chadw llwybrau sy'n arwain at y llwybrau teithio llesol, mae angen i swyddogion ystyried hynny fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ehangach ac mae'r holl lwybrau a phalmentydd yn cael eu harchwilio gan y tîm rheoli rhwydwaith. Mae hon yn drefn arolygu gadarn a thrwyadl sy'n pennu safon a chyflwr y priffyrdd hynny o ran defnyddwyr ffyrdd.

Esboniodd swyddogion hefyd fod yn rhaid iddynt ddiwygio'r cynllun rheoli asedau priffyrdd, a bod gwaith adolygu'n mynd rhagddo gydag adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno unwaith eto yn y dyfodol lle byddant yn penderfynu ar y drefn arolygu newydd ar gyfer y llwybrau beicio hefyd.

Cafodd sylwadau aelodau am gyflwr y llwybrau eu derbyn gan swyddogion ond fe wnaethant gynghori eu bod wedi wynebu rhai heriau difrifol o ran y cyllidebau cynnal a chadw a'u bod wedi mynegi eu pryderon am sawl blwyddyn.

Dywedodd swyddogion, er gwaethaf yr heriau, eu bod yn gwneud eu gorau i gynnal y llwybrau beicio, a'r llwybrau cerdded diogel i'r ysgol hefyd, i safon ddigonol.

Nododd y cadeirydd fod yr aelodau wedi craffu ar y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn flaenorol ac un o'r pwyntiau a godwyd bryd hynny oedd y ffaith bod yr awdurdod yn blaenoriaethu cerdded a beicio o fewn y gyllideb gynnal a chadw honno.

Dywedodd y cadeirydd ei fod yn dda eu bod yn lobïo'r Llywodraeth am gyllid ychwanegol, ond mae yna gyllid y mae'r awdurdod yn ei ddefnyddio erbyn hyn i gynnal isadeiledd priffyrdd. Gofynnodd y cadeirydd sut mae swyddogion yn blaenoriaethu hynny yn unol â pholisïau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Teimlai'r aelodau fod angen i'r cynlluniau rheoli asedau nodi a chydnabod, o safbwynt diogelwch, bod angen safon uwch na gyrrwr ar feicwyr ar gyfer rhai o'r ffyrdd hynny, oherwydd mae llwybrau teithio llesol ar ffyrdd. Nid ydynt o reidrwydd yn llwybrau beicio ond efallai byddant yn stryd neu ffordd dawel a ddynodir ar gyfer beicio.

Nododd y cadeirydd fod rhai o'r sylwadau hynny wedi cael eu cymryd yn ôl pan graffwyd ar y cynllun rheoli asedau.

Awgrymodd yr aelodau mai'r ffordd orau o weld beth yw cyflwr y ffyrdd sy'n cysylltu â'r llwybrau teithio llesol yw teithio ar eu hyd ar feiciau hongiad, teimlai'r aelodau fod hyn yn dangos yn hawdd os ydyn nhw mewn cyflwr digon da i gysylltu â'r llwybr.
Gofynnodd yr Aelodau pryd y disgwylir adroddiad y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd.

Nododd yr Aelodau fod y polisi graeanu'n cael ei adolygu a rhoddir blaenoriaeth isel i lwybrau troed a llwybrau beicio erbyn hyn ac mae hwn hefyd yn rhywbeth y dylid edrych arno yng ngoleuni'r newidiadau eraill i'r polisi.

Dywedodd Aelod y Cabinet fod cyfyngiadau cyllidebol mewn perthynas â graeanu'n golygu nad yw'n bosib graeanu'r holl ffyrdd, llwybrau troed na'r briffordd. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn graeanu llai na 40% o'r rhwydwaith priffyrdd oherwydd y cyfyngiadau hyn.
Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y llwybrau wedi'u nodi yng nghynllun cynnal a chadw'r gaeaf ac mae hynny wedi'i gymeradwyo gan aelodau ac mae'n rhan o'r polisi graeanu a chaiff ei nodi yn y

cynllun cyflawni teithio llesol. Nododd Aelod y Cabinet y byddai pawb yn cefnogi rhagor o ddefnydd o gerbydau graeanu, ond nad yw hynny'n fforddiadwy.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ymgysylltiad â chyflogwyr lleol o safbwynt cwsmeriaid yn cyrraedd safleoedd y busnesau a hefyd eu gweithwyr sy'n cymudo i'r safle gan ddefnyddio llwybrau teithio llesol.

Teimlai'r aelodau ei fod yn bwysig uno polisïau gwahanol gan fod y Cyngor yn gyflogwr. Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw beth y gall y Cyngor ei wneud i'w gwneud hi'n haws i weithwyr y Cyngor gyrraedd y gwaith heb yrru. Defnyddiodd yr aelodau enghraifft o berthynas a wnaeth gais am brentisiaethau a hysbysebwyd gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT) yng nghanolfan Ddinesig Castell-nedd a oedd yn nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr fod yn yr adeilad erbyn 8.30am. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallai'r ymgeisydd ei wneud o'i leoliad oni bai ei fod yn gyrru, gan na fyddai bysus yn cyrraedd mewn pryd, ac roedd y pellter yn rhy bell i ffwrdd i gerdded neu feicio.

Dywedodd Aelod y Cabinet fod y mater o hyrwyddo ac annog teithio llesol wedi cael ei godi gan swyddogion i Trafnidiaeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai mater i Gymru gyfan yw hwn ac nid i CNPT yn unig.

Eglurodd Aelod y Cabinet fod ceisiadau am gyllid teithio llesol yn cael eu hariannu ar gyfer cynlluniau hyrwyddo, nid i hyrwyddo newid yn y dull teithio. Dywedodd Aelod y Cabinet fod darn o waith rhanbarthol yn cael ei wneud fel rhan o'r prosiect Metro sy'n gweithio gyda busnesau i annog a hwyluso teithio llesol ac mae CNPT yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd, prifysgolion a busnesau preifat ym Mae Abertawe ar y siarter teithio iach. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod CNPT wedi derbyn statws siarter teithio iach yn ddiweddar ac mae hyn wedi'i gyflawni heb unrhyw gyllideb benodol gan CNPT. Teimlai Aelod y Cabinet ei fod yn ceisio ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd gan yr aelodau, ond wrth i ragor o bethau ddod i'r amlwg, bydd y tîm yn ymdrechu i wneud gwaith dilynol ar yr awgrymiadau hynny.

Mewn perthynas â siarter Teithio Iach Bae Abertawe, dywedodd swyddogion ei fod yn ddarn sylweddol o waith sy'n cael ei wneud gan y tîm diogelwch ar y ffyrdd, ond roedd yn ymagwedd gorfforaethol at gynyddu ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau teithio ac am deithio llesol ac iach. Roedd swyddogion yn falch iawn eu bod wedi cyflawni'r

statws siarter teithio iach ac ailadroddwyd eu bod yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd, busnesau lleol a Phrifysgol Abertawe. Mae'r fforwm hwnnw'n cyfarfod yn rheolaidd â busnesau yn yr ardal i hyrwyddo'r pwyntiau yr oedd aelodau wedi sôn amdanynt.

O ran y broblem sy'n ymwneud â'r ymgeisydd nad yw'n gallu gwneud cais am y brentisiaeth oherwydd diffyg opsiynau bysus yn y bore, teimlai swyddogion ei bod ychydig yn siomedig na allai'r Cyngor fod ychydig yn fwy hyblyg oherwydd mae polisïau Adnoddau Dynol yn caniatáu gweithio hyblyg lle gall yr awdurdod ei gynnig. Er enghraifft, y posibilrwydd y gall pobl ddechrau'n gynharach yn y bore neu'n hwyrach fel y gallant gael mynediad at drafnidiaeth. Roedd swyddogion yn teimlo ei fod yn rhywbeth y dylen nhw ei godi fel mater polisi corfforaethol ehangach.

Dywedodd swyddogion eu bod, o fewn eu hadran eu hunain, yn ceisio darparu ar gyfer trefniadau mynediad i'r gwaith a theithio ac amseroedd dechrau a gorffen sy'n addas i deuluoedd cyn belled â'u bod yn gallu darparu'r gwasanaethau craidd, a theimlwyd bod hyblygrwydd da o ran y trefniadau gwaith hynny oni bai eu bod mewn swydd gaeth iawn sy'n gofyn bod staff wrth y ddesg neu'n gwneud tasg ar amser penodol. Lle bynnag y bo modd, byddai'r Cyngor yn gweithio i geisio diwallu anghenion unigolyn. Ddywedodd swyddogion y byddant yn cyflwyno hynny i AD.

Dywedodd yr Aelodau fod y pwyllgor personél wedi cael trafodaeth ynghylch polisi Adnoddau Dynol a sut mae hynny'n integreiddio â pholisi trafnidiaeth a theithio llesol, yn enwedig ynghylch y ffaith bod cymhellion yn aml ar gyfer gweithwyr sy'n gyrru i'r gwaith megis pris gostyngedig ar gyfer parcio ceir, ond nid oes pris gostyngedig ar gyfer teithio ar fysus.

Teimlai'r Aelodau fod ambell faes lle mae'r awdurdod yn gwneud penderfyniadau sy'n ceisio denu gweithwyr a chadw staff, ond weithiau mae'r awdurdod wedi bod yn anghofio'r cyd-destun polisi ehangach, roedd aelodau'n teimlo bod ystyried y pethau hyn ar draws y sefydliad yn bwysig.

Nododd y cadeirydd, os yw swyddogion yn mynd i gael y sgyrsiau hynny gydag AD ynghylch hyblygrwydd amseroedd dechrau gwaith etc. y dylent hefyd fod yn siarad yn gyffredinol ynghylch pa mor gydymffurfiol a chyson mae'r awdurdod o ran yr ymagwedd honno at ymdrin â pholisi trafnidiaeth ar draws y sefydliad.

Derbyniodd y cadeirydd fod cyllidebau cyfyngedig ar gael ar gyfer graeanu a gwaith cynnal a chadw ac na all yr awdurdod gynnal popeth na graeanu'r holl ffyrdd i'r cyflwr dymunol ond teimlwyd ei fod yn bwysig blaenoriaethu a rhoi'r blaenoriaethau hynny yng nghyd-destun polisi lleol a chenedlaethol.

Gofynnodd y cadeirydd pa mor hyderus yw'r swyddogion eu bod yn gwneud y penderfyniadau hynny mewn ffordd sy'n blaenoriaethu pobl sy'n cerdded ac yn beicio ac nad oedd yn hyderus bod y Cyngor yn gwneud hynny ar hyn o bryd, er eu bod yn deall bod y dewisiadau yn anoddach i'w gwneud yng nghyd-destun cyllideb fach.

Nododd yr aelodau fod yr awdurdod wedi cael £6.5 miliwn hyd yn hyn a gofynnwyd sut y bydd swyddogion yn blaenoriaethu'r llwybrau beicio oherwydd roedd aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar rai o'r llwybrau a gofynnwyd a yw'r arian hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer y rhain.

Dywedodd swyddogion fod y £6.5 miliwn ar gyfer cynlluniau y maent eisoes wedi edrych arnynt yn y gorffennol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu adnodd blaenoriaethu sydd wedi edrych ar yr holl lwybrau ar fap y rhwydwaith teithio llesol a dyna fydd swyddogion yn ei ddefnyddio i flaenoriaethu llwybrau wrth symud ymlaen.

Nododd yr Aelodau mai dyma fydd un o'r cynlluniau cyflawni cyntaf yng Nghymru a fydd yn cael ei fabwysiadu a rhoddwyd llongyfarchiadau i swyddogion am arwain y ffordd arno.

Gofynnodd yr aelodau a fydd y ddogfen yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Nododd yr Aelodau ei fod yn cynnwys monitro'r llwybrau a'r llwybrau beicio yn Adran 8 yr adroddiad, ond nid yw'n cynnwys pa mor dda y mae'r awdurdod yn ymdrin â chyflawni'r cynlluniau. Teimlai'r aelodau y byddai'n fuddiol iddynt adolygu'r ddogfen yn flynyddol neu o leiaf cynnal adolygiad cyfnodol o ba mor dda y mae'r awdurdod yn gwneud hyn a'u galluogi i'w asesu.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi cynnal ymgysylltiad â rhanddeiliaid ond nad ydynt wedi ymgysylltu â'r cyhoedd ac nad oeddent yn bwriadu gwneud hynny oni bai bod aelodau'n teimlo bod angen. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod ymgynghoriad cyhoeddus ar fap rhwydwaith teithio llesol sydd eisoes ar waith eisoes wedi'i gynnal.

O ran diweddaru'r adroddiad yn flynyddol, dywedodd swyddogion ei bod yn cymryd llawer o waith i ddiweddaru'r adroddiad, a'u bod yn mynd i'w wneud bob pum mlynedd, fodd bynnag, maent yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet, a bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Dywedodd swyddogion eu bod eisoes yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet a disgwylir i'r un nesaf gael ei gyhoeddi ar 23 Hydref ac y byddant yn cyflwyno hyn bob blwyddyn.
Teimlai'r Aelodau ei fod yn debyg y bydd angen newid fformat yr adroddiad hwnnw i adlewyrchu'r hyn a roddwyd yn y cynllun cyflawni ac os bydd hynny'n digwydd, yna byddai hynny'n ffordd dda i'r pwyllgor craffu gadw golwg ar gynnydd yn erbyn cyflawni a dwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif a'i gwneud yn llawer haws i olrhain cynnydd a chyfeiriad.

Croesawodd y cadeirydd y ddogfen a nododd fod y pwyllgor wedi cael llawer o drafodaethau ynghylch teithio llesol dros gyfnod hir gan gynnwys trafodaethau ymhlith rhagflaenwyr y pwyllgor a theimlwyd bod diffyg eglurder pendant ar y cyd ynghylch yr hyn oedd yn ceisio ei gyflawni. Teimlai'r cadeirydd fod yr adroddiad yn cyfleu graddfa'r uchelgais a rhai prosiectau penodol a chyfarwyddiadau teithio penodol y mae'r awdurdod am eu dilyn.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod rhaglen uchelgeisiol o waith wedi'i rhestru ar dudalen 53 a dywedodd yr aelodau eu bod yn ymwybodol iawn y byddai'n cymryd arweinyddiaeth wleidyddol dda i wthio drwy'r cynlluniau hyn a sicrhau bod hwn yn gynllun cyflawni gwirioneddol a gofynnwyd i Aelod y Cabinet beth y bydd yn ei wneud i sicrhau bod rhagor o isadeiledd cerdded, olwyno a beicio yn CNPT fel y gall pobl symud o le i le yn y gymuned yn hawdd heb fod angen car preifat, na'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.

Dywedodd Aelod y Cabinet, gan mai ef oedd Aelod y Cabinet sy'n gyfrifol am Deithio Llesol, ei fod yn cefnogi dyheadau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Ddeddf Teithio Llesol i annog newid patrymau teithio er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio'r ardal. Bydd yn cefnogi swyddogion i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau yn unol â'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yn amodol ar sicrhau cyllid grant. Dywedodd ei fod yn trafod ceisiadau am gyllid gyda swyddogion i sicrhau eu bod yn bodloni dyheadau'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau ei bod yn ymddangos bod y cyllid grant trafnidiaeth yn cael ei adolygu, ac yn y dyfodol mae'n debygol y bydd angen cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i sicrhau

bod y prosiectau'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ar lefel leol.

Dywedodd Aelod y Cabinet wrth yr aelodau, ar lefel leol, fod angen cymorth gan bob cynghorydd gan fod gwelliannau'n effeithio ar wardiau unigol. Dywedodd Aelod y Cabinet nad ei ddyheadau ef yn unig sy'n llywio'r hyn sy'n digwydd yn y cynllun teithio llesol hwn, ond dyheadau pawb. Nododd mai ei gyfrifoldeb ef, fel Aelod y Cabinet, oedd cysylltu â'r swyddogion i sicrhau bod yr awdurdod yn dilyn y cynllun teithio llesol ac yn ei wella lle bo hynny'n bosib.
Nododd Aelod y Cabinet fod y grant cynllun teithio llesol ar hyn o bryd yn grant annibynnol ond mae cynlluniau posib y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'u cyfuno hynny â'r llwybrau diogel i ysgolion a'r cynllun trafnidiaeth. Gallai hyn olygu, yn hytrach na chael cronfa o arian i'r cynllun teithio llesol yn unig wneud cais amdano, bydd hyn o fewn cyd-destun ambell beth arall, ac roedd o'r farn y byddai'n anoddach cael cyllid grant yn y modd hwn.

Dywedodd Aelod y Cabinet mai cyfrifoldeb pawb oedd lledaenu'r neges i newid meddyliau pobl ynghylch y ffordd y maent am deithio, boed hynny ar olwynion, ar feic, trwy gerdded neu ar gludiant cyhoeddus.

Dywedodd Aelod y Cabinet mai un o'r pethau mwyaf y mae'n rhaid i CNPT ei wneud yw cael y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gywir yn gyntaf a bydd popeth arall yn dilyn hynny. Dywedodd Aelod y Cabinet y byddai'n ymdrechu'n llawn i siarad â'r swyddogion a'u helpu gymaint â phosib, a'r gobaith yw, gan ei fod yn bwyllgor craffu da iawn, byddant yn parhau i ofyn y cwestiynau cywir.
Nododd yr aelodau y bydd teithio llesol yn derbyn mwy o arian y gall y Cyngor wneud cais ar ei gyfer, ac maent yn edrych ymlaen at weld Aelod y Cabinet yn gwthio'r achos teithio llesol yn ei flaen.

Nododd y cadeirydd mewn siroedd eraill sydd wedi cyflwyno mwy o gynlluniau gall y mathau hyn o gynlluniau fod yn ddadleuol ac weithiau gallant fod yn amhoblogaidd gyda rhai rhannau o'r gymuned, yn enwedig os oes angen newid ffyrdd neu drefniadau parcio.

Dywedodd y cadeirydd y daw'r newid a'r budd mwyaf o ran cyflawni teithio llesol pan wneir penderfyniadau dewr a allai beri gofid i grŵp bach o bobl er mwyn darparu manteision llawer ehangach.

Nododd y cadeirydd, os yw'r awdurdod yn mynd i gyflawni'n dda yn erbyn y cynllun hwn, yna bydd yn rhaid iddynt wneud rhai

penderfyniadau nad ydynt o reidrwydd yn boblogaidd, ond a fydd yn fuddiol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir mewn cymunedau.

Dywedodd y cadeirydd, pe bai'n fodlon gwneud hynny fel Aelod y Cabinet yna byddai'n cael llawer o gefnogaeth a pharch gan y pwyllgor craffu sydd wir yn credu yn yr agenda teithio llesol, sef cerdded, beicio ac olwyno. Dywedodd y cadeirydd wrth Aelod y Cabinet ei fod yn credu mai dyna mae'r pwyllgor yn gobeithio ei weld; hwb i gyrraedd y cynlluniau hynny a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr iawn.

Cytunodd Aelod y Cabinet â phwynt y cadeirydd a defnyddiwyd enghraifft prif gynllun Aberafan, gan egluro y bydd yr awdurdod yn ei wthio ymlaen ond teimlai bod angen i aelodau lleol gymryd rhan gyda'r swyddogion a'r Cabinet gan nad oes modd ei wneud ar eu pennau eu hunain. Cyfeiriodd Aelod y Cabinet at gyfarfod y cynllun teithio llesol yng Nghimla a oedd yn mynd i gael ei gynnal yn fuan yn Neuadd y Sgowtiaid a gofynnodd i aelodau lleol ddod gyda swyddogion ac Aelodau'r Cabinet pan fydd y swyddogion yn ei gyflwyno.

Er bod Aelod y Cabinet yn teimlo bod y Cabinet a'r swyddogion yn gallu gwneud y penderfyniadau dewr, teimlai bod yr un mor bwysig i'r aelodau lleol fod gyda nhw.

Nododd y cadeirydd fod swyddogion yn ymgysylltu ag aelodau lleol a allai fod â rhai pryderon er efallai na fydd gan bob un ohonynt gymaint o ddealltwriaeth o fanteision teithio llesol gan ei fod yn parhau i fod yn gysyniad haniaethol i lawer o aelodau'r Cyngor a'r gymuned ehangach.

Dywedodd y cadeirydd y gall Aelod y Cabinet, wrth ddangos arweiniad a brwdfrydedd, ddod â'r aelodau gydag ef oherwydd mae'r penderfyniad yn dod o'r Cabinet ac nid yw'n penderfyniad aelod lleol i roi'r cynlluniau hyn ar waith, ond dywedodd y cadeirydd ei fod yn llawer gwell os yw aelodau lleol yn gefnogol ac yn gallu mynegi'r manteision i gymunedau.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith er bod beicio'n cael ei drafod yn aml, roeddent am bwysleisio elfen gerdded teithio llesol oherwydd dyna'r budd mwyaf ac atgoffwyd y pwyllgor fod gan bob un ohonynt droedffyrdd yn eu cymunedau nad ydynt yn hygyrch, sy'n rhy gul, neu sydd â llwybrau troed heb unrhyw gyrbau isel. Tynnodd y cadeirydd

sylw at y ffaith mai'r pot hwn o gyllid sy'n datrys y materion hynny ac os yw hynny'n golygu bod yr awdurdod yn llydanu llwybrau troed ac yn cael gwared ar rai lleoedd parcio ceir, mae'r manteision yn sylweddol oherwydd bydd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo ac yn gweld yr effaith fwyaf.

Roedd gan yr Aelodau gwestiwn am y gwelliant parhaus a'r adborth ynghylch yr isadeiledd cerdded a beicio. Teimlai'r aelodau ei fod yn bwysig bod mecanwaith i gael adborth yn barhaus ac i sicrhau ei fod yn cyrraedd y lleoedd cywir a gall hyn fod yn hanfodol ar gyfer llwybr cyfan. Nododd yr Aelodau fod gan yr awdurdod fecanweithiau adrodd a ffurflenni cyswllt ond dywedodd fod rhai pethau'n cael eu colli ac nad ydynt yn cael eu nodi.

Roedd yr Aelodau'n teimlo bod sicrhau bod y llwybrau presennol yn cael eu cynnal a'u cadw, eu gwella a'u datblygu yr un mor bwysig â datblygu llwybrau yn y dyfodol.

Nododd yr Aelodau fod rhai llwybrau presennol sy'n bodloni'r meini prawf, ond o safbwynt beicio mae yna ddiwygiadau bach y gellid eu gwneud i'w gwella.

Nododd yr Aelodau yn y gorffennol maent wedi cyflwyno awgrymiadau ar gyfer y rhaglen waith a ariannwyd allan o'r dyraniad cyfalaf ac nid y grantiau teithio llesol a gofynnwyd am farn swyddogion ynghylch sut mae'r awdurdod yn sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn cyflawni gwelliannau i briffyrdd trwy weithio i'r un cyfeiriad.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a yw swyddogion yn llunio rhestr o gynlluniau neu'n llunio pecyn o gynlluniau pan fydd awgrymiadau'n cael eu gwneud i'r tîm teithio llesol i sicrhau nad yw pethau'n mynd ar goll.
Nododd y cadeirydd fod mynediad at gyllid grant erbyn hyn er mwyn cyflawni rhai o'r gwelliannau hygyrchedd hynny ac roeddent am wybod a yw swyddogion yn sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn deall yr wybodaeth honno ac yn ei throsglwyddo?

Dywedodd swyddogion fod ganddynt gannoedd o lwybrau arfaethedig ar fap y rhwydwaith teithio llesol, ac roeddent am wella eu safon i gyrraedd yr un safon a nodir yn y canllawiau teithio llesol. Dywedodd swyddogion eu bod yn ymwybodol o ddiffygion ar rai o'r llwybrau presennol ac mae swyddogion wedi cael llawer o ohebiaeth

gan reolwyr y rhwydwaith lle derbyniwyd cwynion a lle bydd swyddogion yn gallu helpu, maent yn ceisio helpu.

Esboniodd swyddogion eu bod wedi cael gwared ar lawer o rwystrau ar rai o'r llwybrau presennol dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau eu bod wedi gosod goleuadau yn Nhai-bach eleni o ganlyniad i rai sylwadau a godwyd.

Mewn perthynas â'r grant, mae ganddynt hefyd gynllun Village Road yn Aberafan. Roedd y cynllun hwn i fod i gael ei ariannu gan arian cyfalaf ond fe lwyddodd swyddogion i sicrhau grant ar ei gyfer. Eglurodd swyddogion, os bydd posibilrwydd eu bod yn gallu cael cyllid grant yn hytrach na gwario cyllideb y Cyngor, maent yn ceisio gwneud hynny drwy weithio ar draws adrannau.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod swyddogion Teithio Llesol bellach yn ymgynghorai fel rhan o'r ceisiadau cynllunio. Mae hynny'n golygu, os bydd cais yn cyrraedd ar gyfer datblygiad mwy, maent yn ymgynghori â swyddogion, a byddant yn darparu adborth o safbwynt teithio llesol.

Esboniodd swyddogion eu bod hefyd yn dylunio pob cynllun priffyrdd gan ystyried canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol ac mae darn o waith i'w wneud ar hynny gan nad yw'n berffaith.

Dywedodd swyddogion y byddant yn gweld os gallai'r tîm gwasanaethau digidol wneud y cronfeydd data gwahanol yn haws i'w dadansoddi. Bydd swyddogion hefyd yn gofyn i'r gwasanaethau digidol a oes modd i'r cyhoedd fynegi pryder ar-lein mewn ffordd a fydd yn cynhyrchu neges yn awtomatig at swyddogion.

Nododd swyddogion y broblem ynghylch y pwyllgor personél a theimlwyd y dylai bod yn ymagwedd cyngor cyfan at gynlluniau strategol mawr ac mae teithio llesol yn rhan allweddol o'r cynllun corfforaethol. Roedd swyddogion yn teimlo ei bod hi'n bwysig bod gan bawb y ddealltwriaeth, yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd i wneud hynny'n bosib.

Dywedodd swyddogion eu bod yn bryderus am y gyllideb yn y dyfodol a nodwyd bod cynghorwyr yn teimlo y dylai fod cronfa fwy o gyllid, fodd bynnag, y neges gan Lywodraeth Cymru i Swyddogion yw y bydd llai o arian ar gael ar gyfer gwaith cyfalaf.

Rhoddodd y swyddogion sicrwydd i'r aelodau bod y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig o amgylch ardal Sandfields a Cimla, yn gwneud cynnydd da ac maent yn gobeithio derbyn yr arian cyfalaf er mwyn cyflawni'r prosiectau hynny.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, er bod ychydig o leihad wedi bod, maent yn gobeithio y byddant yn cael rhagor o grantiau wedi'u cymeradwyo wrth symud ymlaen a fyddai hynny'n gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau yn yr ardaloedd lleol hynny.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i aelodau lleol gymryd rhan a sicrhau bod pawb yn gwybod am deithio llesol drwy seminar ar gyfer yr holl Aelodau am y cynllun teithio llesol yn ogystal â gwahodd Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau eraill i siarad.

Dywedodd swyddogion y byddant yn cael trafodaeth gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ynghylch sut y gallant strwythuro hynny a chyflwyno cyflwyniad fel seminar ar gyfer yr holl aelodau a chytunwyd cynnwys yr holl randdeiliaid, megis Sustrans a chydweithwyr yn Trafnidiaeth Cymru a'r grwpiau y mae aelodau'n cymryd rhan ynddynt yn y gymuned hefyd.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd yr aelodau yr argymhelliad a amlinellwyd yn adroddiad drafft y Cabinet.

## 4. YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

## 5. MONITRO PERFFORMIAD

Nid oedd eitemau monitro perfformiad i'w hystyried.

## 6. DEWIS EITEMAU I GRAFFU ARNYNT YN Y DYFODOL

Nododd yr Aelodau'r Flaenraglen Waith.

## 7. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**